Coleg Cymraeg Cenedlaethol

# Rhaglen

| | |
|---|---|
| 10:15 | Cofrestru a phaned |
| 10:30 | **Croeso**<br>Cadeirydd Coleg Cymraeg, Dr Aled Eurig |
| 10:35-11:00 | **Prif Siaradwr:**<br>Efa Gruffudd Jones, Comisiynydd y Gymraeg |
| 11:00-12:30 | **Sesiwn 1**<br>**Pawb**<br>Newid ymddygiad: annog a chymell myfyrwyr a dysgwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg |
| 12:30-13:30 | Cinio a rhwydweithio |
| 13:30-14:20 | **Sesiwn 2**<br>**Addysg Uwch ac Addysg Bellach**<br>Camu Ymlaen: Pontio a dilyniant rhwng sectorau. |
| | **Sesiwn 2**<br>**Prentisiaethau**<br>Blas ar adnoddau |
| 14:30 - 15:20 | **Sesiwn 3**<br>**Addysg Uwch**<br>Meithrin graddedigion dwyieithog hyderus |
| | **Sesiwn 3**<br>**Addysg Bellach a Phrentisiaethau**<br>I fyny'r pyramid |
| 15:20 | **Crynhoi**<br>Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr, Coleg Cymraeg Cenedlaethol |
| 15:30 | **Ymadael** |

#CynhadleddCCC

CYMRAEG

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

# Cynnwys

**Sesiwn 1**
**Newid ymddygiad: annog a chymell myfyrwyr a dysgwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg**

**Pwy?** Sesiwn i bawb

Cyfranwyr:
- Heledd Bebb, Ymchwil OB3
- Dr Kelly Young, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Dr Osian Elias, Cwmni IAITH Cyf

**Sesiwn 2**
**Camu Ymlaen: Pontio a dilyniant rhwng sectorau.**

**Pwy?** Ymarferwyr yn y sectorau addysg uwch ac addysg bellach

Cyfranwyr:
- Dr Rhian Hodges, , Prifysgol Bangor;
- Anna Davies, Coleg Gŵyr Abertawe;
- Menna Jones, Coleg Sir Gâr

**Sesiwn 2**
**Blas ar adnoddau**

**Pwy?** Ymarferwyr yn y sector prentisiaethau

- Mary Richards

**Sesiwn 3**
**Meithrin graddedigion dwyieithog hyderus**

**Pwy?** Sesiwn i ymarferwyr yn y sector addysg uwch

Cyfranwyr:
- Dr Dylan Foster Evans, Prifysgol Caerdydd;
- Dr Mirain Rhys, Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

**Sesiwn 3**
**I fyny'r pyramid**

**Pwy?** Ymarferwyr yn y sector addysg bellach a phrentisiaethau

- Meggan Prys, Sgiliaith
- Marion Evans, Coleg Penybont

#CynhadleddCCC

CYMRAEG

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Bywgraffiadau

**Heledd Bebb**



Mae Heledd Bebb yn gyfarwyddwr a chyd-berchennog ar OB3 - un o gwmnïau ymchwil a gwerthuso mwyaf blaengar Cymru. Mae'n defnyddio technegau ymchwil meintiol ac ansoddol er mwyn darparu mewnwelediadau craff ac argymhellion pragmatig i gleientiaid o'r sector gyhoeddus a'r trydydd sector ar draws meysydd polisi amrywiol.

Cyn hynny, Heledd oedd un o benodiadau academaidd cyntaf y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Bu'n Uwch-ddarlithydd Busnes a Rheolaeth ym Mhrifysgol De Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd lle defnyddiodd ddulliau arloesol i sefydlu ac ehangu darpariaeth, gan ddenu niferoedd uchel i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg am y tro cyntaf yno.

**Dr Kelly Young**



Mae Kelly yn Brif Ddarlithydd a Chyfarwyddwr Rhaglen BA (Anrh) Busnes a Rheolaeth ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Dechreuodd ei gyrfa yn y diwydiant Twristiaeth a Lletygarwch fel rheolwr gwesty ond mae ei gyrfa wedi bod yn un eang iawn, gydag amser fel rheolwr prosiect, hyfforddwr annibynnol, darlithydd Addysg Bellach, rheolwr datblygu'r iaith Gymraeg a safonwr allanol i'r CMI.

Fel darlithydd Addysg Bellach, Hyrwyddwr Dwyieithrwydd ac y fwy diweddar, Prif Ddarlithydd Addysg Uwch, mae ganddi brofiad o gydlynu ac arwain prosiectau hyrwyddo'r Gymraeg ymysg myfyrwyr ôl 16 oed hyd at ôl-radd. Mae doethuriaeth Kelly yn seiliedig ar brofi methodoleg dysgu ddwyieithog, ac yn benodol, magu hyder a gwella sgiliau iaith myfyrwyr, gan gynhwyso dulliau dysgu ddwyieithog.

**Dr Osian Elias**



Cwblhaodd Osian ei ddoethuriaeth ar newid ymddygiad a pholisi iaith ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 2017. Bu'n darlithio daearyddiaeth ddynol ym Mhrifysgol Abertawe tan 2023, pan ymunodd ag IAITH fel Cyfarwyddwr Newid Ymddygiad a Pholisi Iaith.

Yn ogystal â chymhwyso dulliau newid ymddygiad i bolisi iaith, mae Osian yn mwynhau gweithio'n rhyngddisgyblaethol. Mae ar hyn o bryd yn gweithio ar brosiect sy'n edrych i ddefnydd iaith dros dro gan archwilio ffenomenon y Pop Up Gaeltacht yn Iwerddon dan nawdd Cronfa Goffa Saunders Lewis.

**Dr Rhian Hodges**



Uwchddarlithydd ym maes Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol yn Ysgol Hanes, y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas Prifysgol Bangor yw Dr Rhian Hodges.

Mae'n ymchwilio'n gyson i faes polisi a chynllunio ieithyddol ac yn rhedeg yr M.A Polisi a Chynllunio Ieithyddol ym Mhrifysgol Bangor.

Mae ei diddordebau ymchwil yn cynnwys siaradwyr newydd y Gymraeg a'u teithiau iaith, addysg cyfrwng Cymraeg, a throsglwyddo a defnydd y Gymraeg mewn sawl sffêr amrywiol megis y teulu a'r gymuned.

**Menna Jones**



Mae Menna Jones wedi bod yn Swyddog Iaith Ranbarthol Coleg Sir Gâr ers 2020. Cyn hynny, roedd yn gweithio yn yr adran Gwasanaethau Myfyrwyr ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin. Yn ystod ei gyrfa, mae wedi gweithio mewn amryw o feysydd gan gynnwys trefnydd digwyddiadau, cyfryngau cymdeithasol/marchnata ac athrawes ysgol gynradd am 15 mlynedd.

Mae ganddi ddiddordeb mawr yn y byd chwaraeon a derbyniodd radd dosbarth cyntaf yng Ngwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff yn 2019.

**Anna Fflur Davies**



Mae Anna wedi bod yn gweithio fel Rheolwr y Gymraeg yng Ngholeg Gŵyr Abertawe ers dros 10 mlynedd bellach. Yn wreiddiol o Lanfairpwll, Ynys Môn, mae'n byw yng Nghaerdydd ac yn gweithio yn Abertawe.

Mae'n gweithio ar draws pob campws yn y coleg yn datblygu cwricwlwm dwyieithog a Chymraeg mewn meysydd Addysg Bellach ac Addysg Uwch.

Yn ogystal â hynny, mae'n gweithio gyda myfyrwyr o bob math er mwyn rhoi cyfleoedd iddyn nhw ddatblygu a pharhau gyda'u sgiliau Cymraeg, beth bynnag yw eu lefel iaith.

**Mary Richards**



Mae Mary yn gweithio'n rhan-amser i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol fel arbenigwr e-ddysgu yn dilyn cyfnod yn gweithio iddynt fel arbenigwr amaeth.
Cyn hynny, roedd yn gyfrifol am yr adran astudiaethau ar dir yng Ngholeg Sir Gâr.

Fe enillodd wobr Darlithydd y Flwyddyn Colegau Cymru yn 2015 ac mae ganddi ddiddordeb mewn technoleg, ffermio a chwaraeon, yn enwedig golff.

**Marion Evans**



Mae Marion wedi bod yn gweithio i Goleg Pen-y-bont ar Ogwr ers 2017, gan addysgu seicoleg, cymdeithaseg ac anatomeg a ffisioleg yn bennaf. Mae Marion yn cyflwyno rhai unedau yn ddwyieithog ar y cwrs Mynediad i Addysg Uwch, gan alluogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Mae bod yn ddarlithydd dwyieithog yn grymuso cydweithwyr a dysgwyr Marion. Mae hi hefyd yn Llywodraethwr Staff ac yn Arholwr Lefel A profiadol.

**Meggan Prys**



Mae Meggan yn gweithio i Sgiliaith, Grŵp Llandrillo Menai, fel Rheolwr Prosiect PLF (Professional Learning Fund) cydweithredol ar ddwyieithrwydd ers 2020.

Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar gefnogi tiwtoriaid ôl-16 i ddatblygu sgiliau addysgu dwyieithog drwy ddarparu hyfforddiant, datblygu adnoddau a chreu cyfleoedd i diwtoriaid rhwydweithio a rhannu arfer da.

**Dr Mirain Rhys**



Mae Dr Mirain Rhys yn Uwch Ddarlithydd Seicoleg ac Arweinydd Strategol y Gymraeg ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Mae ei harbenigedd yn cwmpasu meysydd Addysg a Dwyieithrwydd. Mae ei diddordebau ymchwil cyfredol mewn datblygiad / trosglwyddiad y Gymraeg o fewn addysg, y gymuned a'r cartref a sut mae hyn yn cymharu ag enghreifftiau rhyngwladol eraill o boblogaethau ieithoedd lleiafrifol.

Mae hi wedi cynnal ymchwil ac wedi cyhoeddi mewn sawl maes, gan gynnwys addysg blynyddoedd cynnar, dwyieithrwydd, ieithoedd lleiafrifol a'r Gymraeg.

**Dr Dylan Foster Evans**



Dylan yw Pennaeth Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd a barddoniaeth yr Oesoedd Canol diweddar yw ei brif maes arbenigol.

Mae ei ddiddordeb mewn iaith a lle yn ymestyn i'r cyfnod modern ac mae ganddo ddiddordeb arbennig yn yr iaith Gymraeg yng Nghaerdydd. Mae ei waith yn y maes hwn yn ymdrin â hanes yr iaith, ei diwylliant a'i llenyddiaeth a hefyd ei rôl wrth ffurfio hunaniaeth mewn dinas amrywiol ac amlethnig. Mae enwau lleoedd yn ffurfio maes diddordeb cysylltiedig arall.
Yn fwy cyffredinol, mae ganddo ddiddordeb yn rôl y Gymraeg yn y system addysg a'r gwahanol fathau o Gymraeg a ddefnyddir yng Nghymru gyfoes.